



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services
Partnership
Employment Services

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru

Bydd Cydwasaethau PCGC yn darparu System Adrodd y Gweithlu Cymru ar gyfer Practisiau Meddygon Teulu ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd y system yn cael ei chyflwyno gan NHS Digital trwy drefniadau cytundebol uniongyrchol gyda PCGC. Fe'i rhennir yn ddau fodiwl; y cyntaf yw casglu data am y gweithlu a'r ail yw'r offeryn adrodd. Data personol a data cyflogaeth yw data'r gweithlu. Nid yw'r offeryn adrodd yn cynnwys unrhyw ddata personol adnabyddadwy, nid yw ond yn dangos swyddi, lleoliadau a grwpiau oedran.

Bydd y Practisiau Meddygon Teulu yn enwebu arweinydd, o bosibl Rheolwr Practis / Rheolwr Busnes i gael mynediad (mewngofnodi a reolir/caniatadau) i ddata ei staff ei hunan, gyda mynediad i weld data'r offeryn adrodd ledled Cymru. Mae Gweinyddwr System PCGC a fydd â mynediad llawn i ddata ac adrodd, a bydd yn cysylltu ag NHS Digital, practisiau meddygon teulu ac yn rheoli mynediad at adrodd gwybodaeth.

O fewn Grŵp Gweithredu System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu, mae cynrychiolwyr o Bwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno ymholiadau ynglŷn â materion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sydd i'w hystyried mewn perthynas â data'r gweithlu ac yn arbennig yr angen i gael cydsyniad penodol gan y sawl mae'r data yn berthnasol iddynt i brosesu eu data personol yn gyfreithlon. Gan nad yw'r offeryn adrodd yn cynnwys data adnabyddadwy, nid yw darpariaethau'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn berthnasol i'r modiwl hwn.

Mae'r Grŵp Gweithredu wedi datblygu rolau a chyfrifoldebau clir sy'n nodi pwy fydd yn gweld y data a sut y caiff eu defnyddio. Mae hyn yn dangos yn glir mai dim ond arweinydd enwebedig y Practis Meddyg Teulu a Gweinyddwr y System fydd yn gallu cael gafael ar ddata adnabyddadwy. Amlinellir manylion am y rolau a'r cyfrifoldebau hyn yn Atodiad 1.

Rydym wedi derbyn cyngor ynglŷn ag agwedd data'r gweithlu gan Adran Llywodraethu Gwybodaeth PCGC, Swyddog Diogelu Data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ogystal â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC.

Mae chwe sylfaen gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol fel y nodir yn Erthygl 6 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn gymwys pryd bynnag y caiff data personol eu prosesu:

(a) Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.

(b) Contract: mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych gyda'r unigolyn, neu oherwydd eu bod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.

(c) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).

(d) Buddiannau allweddol i fywyd: mae'r prosesu yn angenrheidiol i amddiffyn bywyd rhywun.

(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir.

(f) Buddiannau cyfreithlon: mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer eich buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti, oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n gwrthbwysu'r buddiannau cyfreithlon hynny. (Ni all hyn fod yn berthnasol os ydych yn awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data i gyflawni eich tasgau swyddogol.)

Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i GIG Cymru benderfynu ar y sail gyfreithlon cyn dechrau prosesu data personol. Mae'n bwysig ei gael yn iawn y tro cyntaf, oherwydd os canfyddir yn ddiweddarach bod y sail a ddewiswyd yn amhriodol bydd yn anodd cyfnewid i un gwahanol. Felly mae'n bwysig asesu'n fanwl pa sail sy'n briodol ymlaen llaw ac i wneud cofnod o hyn. Mae'n bosibl bod mwy nag un sail yn berthnasol i'r prosesu; ac os yw hyn yn wir, yna dylid gwneud hyn yn glir o'r dechrau. Os bydd y dibenion yn newid dros amser neu os oes pwrpas newydd na ragwelwyd yn wreiddiol, efallai na fydd angen sail gyfreithiol newydd cyn belled â bod eich diben newydd yn gydnaws â'r diben gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dweud yn benodol nad yw hyn yn berthnasol i brosesu yn seiliedig ar ganiatâd**. Rhaid i gydsyniad fod yn benodol ac yn wybodus bob amser. Naill ai mae angen cydsyniad ffres sy'n ymdrin yn benodol â'r diben newydd, neu mae angen dod o hyd i sail wahanol ar gyfer y diben newydd.

Yn ein barn ni, nid cael caniatadau unigol yw'r sail fwyaf priodol i ddibynnu arni i brosesu data personol oherwydd rhesymau cyfreithiol a logistaidd ill dau. Rydym yn ystyried bod y seiliau mwyaf priodol naill ai o dan Contract Erthygl 6(b) neu o dan Dasg Gyhoeddus Erthygl 6 (e).

Rydym yn deall bod cwestiynau wedi'u codi ynghylch a yw rhai o'r data sydd i'w casglu yn cael eu hystyried yn "ddata categori arbennig" o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae data categori arbennig yn ddata personol y mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn ystyried eu bod yn fwy sensitif ac felly mae angen mwy o amddiffyniad arnynt. Rhoddir amlinelliad llawn o feysydd data System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru yn Atodiad 2. Enghreifftiau o ddata categori arbennig yw gwybodaeth am unigolyn fel a ganlyn:

- hil;
- tarddiad ethnig;
- credoau gwleidyddol;
- crefydd;
- aelodaeth o undeb llafur
- geneteg;
- biometreg (lle cânt eu defnyddio at ddibenion profi hunaniaeth);
- iechyd;
- bywyd rhyw; neu
- gyfeiriadedd rhywiol.

Er mwyn prosesu data categori arbennig, rhaid dibynnu ar amod penodol yn unol ag Erthygl 9 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Rydym o'r farn bod yr amod penodol a gynhwysir yn Erthygl 9 (h) yn gymwys sef:

(h) mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu capasiti gwaith y cyflogai, diagnosis meddygol, darparu gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol neu reoli systemau gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaethau neu yn unol â chontract â gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn ddarostyngedig i'r amodau a'r mesurau diogelu y cyfeirir atynt ym mharagraff 3;

Credwn nad yw'r "meysydd data gorfodol" sydd i'w llenwi ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru yn dod o fewn categori data categori arbennig. Lle darperir data penodol yn ychwanegol at y data y gofynnir amdanynt yn y meysydd data gorfodol (e.e. mewn perthynas â rhyw ac ethnigrwydd), mae'n bosibl y gellir ystyried bod yr wybodaeth ychwanegol yn ddata categori arbennig. Yn yr achos hwn, gellir dibynnu ar Erthygl 9 (h) i alluogi prosesu unrhyw ddata categori arbennig.

Rydym hefyd yn deall bod pryderon wedi'u codi ynghylch atebolrwydd posibl practis meddyg teulu am unrhyw fynediad diawdurdod at ddata a allai ddigwydd pan fyddant yn gweithredu fel rheolydd data yn y broses adrodd. Mae rheolwyr data yn gyfrifol am sicrhau bod y prosesu data (gan gynnwys unrhyw brosesu a wneir gan brosesydd ar ran rheolwr) yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol mae rheolwyr data a phroseswyr data yn ddarostyngedig i bwerau ymchwilio a chywiro perthnasol awdurdod goruchwyllo (fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) a gallant fod yn destun dirwyon gweinyddol neu gosbau eraill. Gall unigolyn ddod â hawliad yn uniongyrchol yn erbyn rheolwr data a / neu brosesydd data yn y llys. Gellir dal rheolwyr data a phroseswyr data yn atebol o dan Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Erthygl 82 i dalu iawndal am unrhyw ddifrod a achosir gan brosesu (gan gynnwys difrod nad yw'n gorfforol megis gofid).

Ni fydd rheolwr data yn atebol os gall brofi nad yw mewn unrhyw ffordd yn gyfrifol am y digwyddiad sy'n arwain at y difrod. Os yw'n ofynnol i reolwr data dalu iawndal ond nad yw'n gwbl gyfrifol am y difrod, efallai y gall ei hawlio yn ôl oddi wrth y prosesydd data gyfran yr iawndal yr oedd ef yn atebol amdano.

Hyderwn fod yr wybodaeth uchod o gymorth ac yn rhoi tawelwch meddwl i bractisiau meddygon teulu mewn perthynas â gweithredu System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu.

Rydym yn cadarnhau bod Asesiad Effaith Diogelu Data ar y gweill, a fydd hefyd yn dangos cydymffurfiaid â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac yn ennyn ymddiriedaeth a hyder yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru. Bydd copi o'r asesiad hwn yn cael ei rannu gyda'r holl bractisiau meddygon teulu yn dechrau ar 24 Mehefin 2019.


Datblygwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Cydwasanaethau GIG Cymru ar ran Gwasanaethau Cyflogaeth PCGC.

Dyddiad 14 Mehefin 2019



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru CANIATADAU DATA




Cam Un - bydd Gweinyddwr System PCGC yn rheoli adroddiadau'r Modiwl Data Warws (Medi 2019).

Cam Dau - bydd mynediad at adroddiadau'r Modiwl Warws Data yn cael ei ddrynnu i'r Bwrdd Iechyd – Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol & AaGIC.

Rolau a Chyfrifoldebau System Genedlaethol Adrodd y Gweithlu Cymru.

Rhanddeiliad	Modiwl Data	Modiwl Warws Data
Gweinyddwr System PCGC	Pwynt Cyswllt Sengl ar gyfer Gofal Sylfaenol Cymru Mynediad Gweinyddu System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru NHS Digital - Rheoli'r contract - Pwynt Cyswllt Cymorth i'r Defnyddiwr • Ailosod cyfrinair • Arbenigol - Awgrymiadau / Canllawiau • Hyfforddiant / Canllaw / Gweminar • Llywodraethu Gwybodaeth / Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol • Ymholiadau Rhyddid Gwybodaeth • Ymholiadau Datblygu System • Methiant system / cymorth Parhad Busnes Data Sganio'r Gorwel yn erbyn Safon Data'r Gweithlu Cenedlaethol a gweithio gyda phractisiau i ddatrys a chodi pryderon ar faterion ansawdd data. Ymgysylltu â phractisiau i boblogi data Cysylltu ag Arweinydd Clwstwr Datrys materion / bylchau ansawdd data o fewn 5 diwrnod gwaith Cyfathrebu datblygiadau / newidiadau sy'n effeithio ar y system Cefnogi practisiau meddygon teulu i nodi gofynion datblygu'r systemau a'u cyflwyno i Grŵp y Gweithlu Cenedlaethol	Pwynt Cyswllt Cymru - GIG NHS Digital - Rheoli'r contract Gofynion System NHS Digital - Rheoli Rhagweithiol - Datrysiaid Adroddiadau - Rhanddeiliaid e.e. bwrdd iechyd (Penaethiaid Gofal Sylfaenol) / AaGIC (Y Gweithlu) Rheoli Rhyddid Gwybodaeth - Llywodraethu Gwybodaeth Cefnogi ceisiadau ad-hoc rhanddeiliaid am ddata heb eu cyhoeddi o fewn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
Rheolwyr Practis	Mewnbynnu, rheoli a chynnal • Data'r gweithlu: • Absenoldeb • Dyrannu meddygon locwm / sesiynau cronnus • Gwybodaeth am swyddi gwag Cymhwyso Safonau Data Cenedlaethol y Gweithlu Ymgysylltu â gweinyddwr system PCGC ar gyfer arweiniad, i lenwi data a chodi pryderon neu ddatblygiadau	Bydd ganddynt gyfrifoldeb a rheolaeth dros eu data a'u swyddogaethau adrodd Ni chyhoeddir data gan reolwyr y practis (darperir hyn gan y gweinyddwr system)
Addysg a Gwellu Iechyd GIG Cymru		Defnyddio'r data i lywio Strategaeth a Chynllunio'r Gweithlu Gofal Sylfaenol Deall y rolau a'r cyfrifoldebau adrodd er mwyn osgoi dyblygu Defnyddio data a gyhoeddir gan randdeiliaid eraill Ni chyhoeddir data gan AaGIC Cadarnhad i'w dderbyn gan AaGIC
Llywodraeth Cymru		Set Ddata Gyhoeddedig (Set ddata anhysbys) Cynllunio'r Gweithlu
Byrddau Iechyd - Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol	Hyrwyddo defnydd o'r system Cyfleu i bractisiau y gellir cyflawni'r gofynion data i fyrddau iechyd wrth ddefnyddio'r system. Cysylltu â Gweinyddwr System PCGC	Cyfrifiad Practisiau Meddygon Teulu Blynnyddol Ffigurau Swyddi Gwag Misol Cynllunio TUPE Practis a Reolir Cynllunio Gweithlu a Chyflenwi Gwasanaethau - Adrodd ad-hoc



Os hoffech chi gael eglurder pellach, cysylltwch â ni:

Ffon ● 01792 860498/0490

E-bost ● NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

GWELER Y FFEIL EXCEL ATODEDIG